



Gweinyddiaeth Cyfiawnder

Datganiad Cydraddoldeb

Crynodeb o'r Polisi

Mae'r ymgynghoriad yn gofyn a ddylai gwneud penderfyniadau gan y Bwrdd Parôl fod yn agored ar gyfer ei ailystyried. Mae'r ymgynghoriad hwn yn chwilio am safbwyntiau ynglŷn â chyflwyno mecanwaith o'r fath ynghyd ag egwyddorion cynllunio'r mecanwaith.

Mae'r ymgynghoriad yn ystyried:

- a. y mathau o benderfyniadau i gael eu hailystyried,
- b. pwy all wneud cais ar gyfer ailystyried penderfyniad,
- c. y trothwy y mae'n rhaid ei gwrdd er mwyn i benderfyniad gael ei ailystyried, a
- d. sut y gallwn ni wneud y broses ailystyried yn dryloyw, tra'n sicrhau yn ogystal bod digon o drefniadau diogelu yn bodoli. Ein bwriad ni yw bod hyn mor agored ac mor dryloyw ag sy'n bosibl.

Mae'r Datganiad Cydraddoldeb hwn yn mynd gyda'r papur ymgynghori ailystyried a'r Aseiad Effaith gan y Bwrdd Parôl. Mae'n ddefnyddiol ystyried y materion y mae'r papur hwn yn ymdrin â nhw ochr yn ochr â'r ddau bapur yma. Byddwn yn diweddarau ein hystyriaethau cydraddoldeb unwaith yr ydym ni wedi derbyn ymatebion o'r ymarfer ymgynghori.

Dyletswyddau Cydraddoldeb

Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion a'r Adran, wrth ymarfer eu swyddogaethau, i roi 'sylw dyledus' i'r angen i:

- Gael gwared â gwahaniaethu, aflonyddu ac annhegwch anghyfreithlon ac unrhyw ymddygiad gwaharddedig arall o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng gwahanol grwpiau (y rhai hynny sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydyn nhw); a
- Magu perthnasau da rhwng gwahanol grwpiau (y rhai hynny sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydyn nhw'n rhannu nodwedd warchoddedig).

Mae talu 'sylw dyledus' angen cael ei ystyried yn gymesur yn erbyn y naw "nodwedd warchoddedig" o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 – sef hil, rhywedd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oed, priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth.

Ystyriaethau Cydraddoldeb

Gwahaniaethu uniongyrchol

Mae gwahaniaethu uniongyrchol yn digwydd pan fyddai polisi yn arwain at bobl yn cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchoddedig. Ein hasesiad ni yw nad yw mabwysiadu

mecanwaith ar gyfer ailystyried yn uniongyrchol wahaniaethol, oherwydd byddai'r newidiadau o'r polisi hwn yn cael eu defnyddio yn yr un ffordd gyda phob cyfranogwr yn y broses barôl. Nid ydym yn ystyried bod hyn yn arwain at drin pobl yn llai ffafriol oherwydd nodweddion gwarchoddedig.

Gwahaniaethu anuniongyrchol

Mae gwahaniaethu anuniongyrchol yn digwydd pan mae polisi yn berthnasol yn gyfartal i bob unigolyn, ond byddai'n rhoi'r rhai hynny sy'n rhannu nodwedd warchoddedig o dan anfantais o'u cymharu â'r rhai hynny nad ydyn nhw yn rhannu nodwedd warchoddedig.

Ein hasesiad cychwynnol yw nad yw'r cynigion ar fecanwaith i ailystyried penderfyniadau'r Bwrdd Parôl yn gwahaniaethu yn anuniongyrchol oherwydd ein bod yn credu nad ydyn nhw'n rhoi pobl gyda nodweddion gwarchoddedig o dan anfantais arbennig o'u cymharu ag eraill nad ydyn nhw'n rhannu'r nodweddion hynny.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod pobl gyda rhai nodweddion gwarchoddedig yn cael eu gorgynrychioli ymysg y rhai hynny sy'n mynychu gwrandawiadau parôl o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Fodd bynnag, fel ag y mae yn fwy cyffredinol drwy Gymru a Lloegr, mae gorgynrychiolaeth o rai pobl gyda nodweddion gwarchoddedig yn y system cyfiawnder troseddol. Mae'r grwpiau sy'n cael eu gorgynrychioli ym mhoblogaeth y carchardai fel a ganlyn¹:

- Y rhai hynny sy'n wrywaidd
- Y rhai hynny sydd rhwng 18 a 39 oed
- Y rhai hynny sydd ag anabledd
- Y rhai hynny gydag ethnigrwydd Du neu Du Prydeinig, neu grŵp ethnig cymysg
- Y rhai hynny sy'n Fwslemaid

Ymhellach, mae'n debygol bod y rhai a nodir fel Lesbaid, Hoyw, Deurywiol neu Arall (LHD) yn cael eu gorgynrychioli ym mhoblogaeth y carchardai o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol.²

Os gellid dangos bod y polisi yn rhoi'r grwpiau hyn o dan anfantais, credwn mai dull cymesur ydyw i gyflawni nod gyfreithlon. Yn fras, credwn fod egwyddorion cyfiawnder agored, mynediad at gyfiawnder a'r budd cyhoeddus yn cyfiawnhau'r newidiadau a amlinellwyd, ond

¹ Gweler Poblogaeth Carchardai Rhagfyr 2017, *Offender Management statistics quarterly: Gorffennaf i Fedi 2017*, sydd i'w weld yn

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/676246/prison-population-q4-2017.xlsx. I'r rhai hynny sy'n dilyn dedfryd oes neu ddedfryd o garchariad er mwyn amddiffyn y cyhoedd, mae gwrywod yn cael eu gorgynrychioli ychydig mewn perthynas â chyfanswm y boblogaeth garchardai (96.77% o garcharorion oes a charcharorion CAC o'i gymharu â chyfanswm poblogaeth carchardai o 95.36%, gweler yn yr un man, tablau 1.1 a 1.9a). Nid yw'r wybodaeth ynglŷn â nodweddion gwarchoddedig eraill ar gael ar gyfer yr is-set hon o garcharorion.

² Nodwyd bod 2.6% o garcharorion yn LHD. Mae hyn yn debygol o gael ei danadrodd. Ni chasglwyd cyfeiriadedd rhywiol yng nghyfrifiad 2011. Nododd yr Ystadegau Swyddogol Arbrofol diweddaraf fod 2% o'r boblogaeth gyffredinol yn LHD. Mae'n debygol felly fod y rhai hynny sy'n nodi LHD yn cael eu gorgynrychioli mewn perthynas â'r boblogaeth yn gyffredinol. Gweler *National Offender Management Service Annual Offender Equalities Report, 2016/17*, 12, sydd i'w weld yn

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/663390/noms-offender-equalities-annual-report-2016-2017.pdf a *Sexual Identity: UK, 2016*, sydd i'w weld yn <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/sexuality/bulletins/sexualidentityuk/2016>

eu bod yn cael eu cydbwysu yn briodol yn erbyn ystyriaeth o breifatrwydd yr unigolyn, risg personol ac adsefydlu a'r amddiffyniadau ar eu cyfer.

Ynglŷn â pharch tuag at ganlyniad gwrandawiadau'r Bwrdd Parôl, mae troseddwr sy'n wyn yn fwy tebygol i gael eu cymeradwyo ar gyfer eu rhyddhau na'r rhai hynny o unrhyw gefndir ethnig arall. Dyma yw'r achos ar gyfer achosion adolygu a gwrandawiadau adalw fel ei gilydd³. Pe bai'r tebygolrwydd hwn gael ei gynnal ar gyfer achosion sydd am gael eu hailystyried, gall hyn waethygu'r sefyllfa niweidiol sydd eisoes yn bresennol ar gyfer y rhai hynny o grwpiau ethnig nad ydyn nhw'n wyn. Mae tyndra yma. Mae'r rhai hynny sy'n perthyn i grwpiau ethnig nad ydyn nhw'n wyn yn cael eu gorgynrychioli ym mhoblogaeth y carchardai. Felly, mae unrhyw effaith gadarnhaol o'r argymhelliad mecanwaith ailystyried o'u plaid. Fodd bynnag, yn nhermau gweithredu'r mecanwaith hwnnw, gall troseddwr nad ydyn nhw'n wyn fod o dan lai o anfantais yn gymesur na'u cymheiriaid gwyn. Rhwng popeth, rydym ni'n ystyried y bydd yr argymhelliad yn cael gwir effaith gadarnhaol ar droseddwr nad ydyn nhw'n wyn.

Hyrwyddo cydraddoldeb cyfle

Disgwylir y bydd y cynigion hyn o fudd i ddiodefwyr drwy wella eu mynediad at gyfiawnder a rhoi sicrwydd ychwanegol iddyn nhw bod mecanwaith haws yn bodoli i ailystyried penderfyniadau'r Bwrdd Parôl. Byddai hyn yn arbennig o wir os yw'r diodefwyr yn derbyn yr hawl i ysgogi ailystyriaeth.

Gwahaniaethu yn codi o anabledd a dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol

Nid ydym yn ystyried bod angen unrhyw addasiadau ar gyfer pobl anabl yn fwy na'r rhai hynny sydd eisoes yn bodoli yn nyletswyddau statudol y Bwrdd Parôl a'r carchardai. Wrth ledaenu gwybodaeth, dylai carchardai a'r Bwrdd Parôl ystyried anabledd, problemau rhifedd a llythrennedd ac anawsterau cyfathrebu a dysgu.

Magu perthnasau da

Nid ydym yn ystyried bod unrhyw effaith sylweddol ynglŷn â chyflawni'r amcan hon.

³ Ar gyfer achosion adolygu yn 2016/17, rhyddhawyd 43% o droseddwr gwyn o'r carchar, tra ar gyfer grwpiau ethnig eraill, roedd canrannau yn amrywio o 36% i 39%. Ar gyfer gwrandawiadau adalw, rhyddhawyd 59% o droseddwr gwyn o'r carchar, tra bod canrannau ar gyfer grwpiau ethnig eraill yn amrywio o 49% i 58%. Gweler *Statistics on Race and the Criminal Justice System 2016: A Ministry of Justice Publication under Section 95 of the Criminal Justice Act 1991*, 85-86, sydd i'w weld yn https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/669094/statistics_on_race_and_the_criminal_justice_system_2016_v2.pdf